Gweithio gyda'n gilydd i drechu tlodi

# Datganiad Caethwasiaeth Fodern ClwydAlyn 2024

**Gallwn ddarparu'r ddogfen hon mewn fformatau eraill.**

**Os hoffech gael copi o'r ddogfen mewn fformat arall, cysylltwch â'r adran rheoli dogfennau hsqe@clwydalyn.co.uk**

Fersiwn 1 - 23 Mai 2024

**ClwydAlyn Housing Limited**
72 Ffordd William Morgan,
Parc Busnes Llanelwy, Llanelwy,
Sir Ddinbych, LL17 0JD

**ClwydAlyn Housing Limited**
72 Ffordd William Morgan,
St Asaph Business Park, St Asaph,
Denbighshire, LL17 0JD

ffôn/tel: 01745 536800 Canolfan Gwasanaeth Cwsmeriaid/
Customer Service Centre: 0800 183 5757
e-bost/email: help@clwydalyn.co.uk

# Datganiad Caethwasiaeth Fodern ClwydAlyn 2024

## Cynnwys:

Datganiad Caethwasiaeth Fodern ClwydAlyn 2024

Ein Cynllun Corfforaethol 2020-2025

Cynnydd yn ystod 2023/2024

Edrych i'r dyfodol

Ein cynllun gweithredu ar gyfer 2024/2025



# Datganiad Caethwasiaeth Fodern ClwydAlyn 2024

Gall caethwasiaeth fodern effeithio ar unrhyw un. Rydym yn deall ei bod yn drosedd gudd a bod pobl yn cael eu dal mewn caethwasiaeth fodern gan eu bod yn agored i gael eu twyllo a'u hecsbloetio, yn aml oherwydd tlodi ac allgáu.

Mae Caethwasiaeth Fodern yn broblem ym mhob ardal yn y DU. Mae ffigyrau diweddaraf y Swyddfa Gartref yn 2022 yn dangos bod 16,938 o ddioddefwyr posibl o gaethwasiaeth fodern, ac mae hyn yn gynnydd o 33% ers y flwyddyn flaenorol a'r ffigur blynyddol uchaf ers sefydlu'r Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol yn 2009. (Ffynhonnell: crynodeb diwedd y flwyddyn y Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol 2022)

Rydym wedi llunio'r datganiad hwn yn unol â Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015. Mae'n rhoi diweddariad o'n gwaith gyda'n cadwyn gyflenwi, staff, a phreswylwyr i godi mwy o ymwybyddiaeth o Gaethwasiaeth Fodern. Mae'n rhoi diweddariad am ein cynnydd ar sail ein cynllun gweithredu, a hefyd yn gosod blaenoriaethau ar gyfer 2024/2025.

# Ein Cynllun Corfforaethol 2020-2025

Cymdeithas Dai yw ClwydAlyn ac mae'n gweithio yn ardaloedd pob awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru. Yn 2020, gwnaethom ddatblygu cynllun corfforaethol pum mlynedd, gan adeiladu ar ein cenhadaeth 'gyda'n gilydd i drechu tlodi'. Ers datblygu ein cynllun, mae effaith yr argyfwng costau byw wedi bod yn bellgyrhaeddol, ac mae mwy o bobl yn ein cymunedau yn dioddef oherwydd tlodi incwm, bwyd a thanwydd. Mae'r argyfwng costau byw yn cael effaith anghymesur ar y cymunedau tlotaf, gan gynnwys rhai grwpiau lleiafrifoedd ethnig, pobl anabl, a phobl ifanc o'r cymunedau LHDT. Yn ystod y flwyddyn nesaf, byddwn yn datblygu ein cynllun corfforaethol newydd.

Mae mynd i'r afael â'r heriau sy'n wynebu ein cymunedau yn dod yn fwy a mwy cymhleth. Mae pobl sy'n agored i niwed yn wynebu mwy o risg y bydd eraill yn camfanteisio arnynt, ac mae gwerthu cyffuriau wedi dod yn broblem fwy peryglus yn ein cymunedau. Rydym yn gweld mwy o broblemau diogelu yn ein cymunedau yn ogystal â phryderon am gamddefnydd wedi'i dargedu a niwed i bobl ifanc a hŷn. Mae ein gwasanaethau wedi cael eu hailddylunio ac

maent yn parhau i ddatblygu. Rydym wedi creu rolau newydd fel bod modd ymyrryd yn gynnar yn y sefyllfaoedd mwyaf cymhleth gan ein galluogi i gynnig cymorth wedi'i deilwra yn ein cymunedau a helpu i fynd i'r afael â'r materion hyn.

Rydym yn gweithio mewn partneriaeth ag amrywiaeth o sefydliadau gan gynnwys y rhai sy'n adeiladu ein cartrefi newydd a'r rhai sy'n helpu i gynnal ein heiddo; maent fel arfer yn gweithio gyda sawl is-gontractwr i dynnu ar sgiliau arbenigol. Yn fwy cyffredinol, mae ein cyflenwyr yn darparu amrywiaeth o nwyddau a gwasanaethau gan gynnwys staff asiantaethau i ateb anghenion staffio hanfodol yn ein gwasanaethau gofal, ynghyd â gwasanaethau bwyd, glanhau, a gwasanaethau eraill.

# Cynnydd yn ystod 2023/2024

Gwnaethom gynnal sesiynau codi ymwybyddiaeth am Gaethwasiaeth Fodern ar gyfer ein Pwyllgor Preswylwyr a darparu rhagor o wybodaeth yn rhifyn yr hydrefn o'n Cylchgrawn i Breswylwyr. Roedd hyn yn cynnwys esbonio sut fath o beth yw Caethwasiaeth Fodern yn ein cymunedau, gan gyfeirio preswylwyr at aelodau staff allweddol a mudiadau arbenigol all gynnig cymorth ac arweiniad. Rydym yn dal i gynnal hyfforddiant Diogelu i'n holl staff.

Rydym yn gweithio gyda llawer o gyflenwyr i ddarparu ein nwyddau a'n gwasanaethau ehangach; y llynedd, gwnaethom nodi'r cadwyni cyflenwi hynny lle rydym yn credu bod risg uwch o Gaethwasiaeth Fodern a lle rydym yn gwario fwyaf.

Mae ein dogfennaeth dendro ddiweddaraf sy'n cynnwys gwybodaeth ofynnol ychwanegol am Gyflogaeth Foesegol a Chaethwasiaeth Fodern wedi'i ymwreiddio erbyn hyn. Mae'n gymwys i bob tendr, ni waeth a yw trosiant blynyddol y cyflenwr yn cyrraedd y trothwy £36m sy'n ei gwneud yn ofynnol iddo ddarparu datganiad.

Fel rhan o'n prosesau caffael a thendro, rydym yn sicrhau bod yr holl ddarpar gyflenwyr yn llenwi ac yn dychwelyd Holiadur Cyflenwyr Safonol. Mae'r holiadur yn gofyn y cwestiynau a ganlyn:

- A oes gennych bolisi/datganiad Caethwasiaeth Fodern?
- A fyddech cystal â chadarnhau pa fesurau a chamau rydych yn eu

cymryd yn flynyddol i sicrhau cydymffurfiaeth.

- A allwch chi gadarnhau nad ydych yn destun (nac erioed wedi bod yn destun) unrhyw ymchwiliadau neu gyhuddiadau yn ymwneud â chaethwasiaeth fodern?

Mae'r atebion i'r cwestiynau hyn yn cael eu gwerthuso a bydd unrhyw bryderon a gaiff eu codi yn arwain at ofyn rhagor o gwestiynau i gael mwy o eglurder a sicrhau bod cyflenwyr yn bodloni'r meini prawf gwerthuso. Gofynnir i'r cyflenwr llwyddiannus a fydd yn ennill y contract ymateb i'r cwestiynau hyn a rhoi tystiolaeth o gydymffurfiaeth yn flynyddol fel rhan o'r broses barhaus o reoli'r contract.

Os oes gennym gyflenwyr nad ydynt wedi bod yn rhan o'r broses dendro ffurfiol neu mae gennym gyflenwyr a gafodd eu caffael drwy gontract fframwaith, rydym wedi casglu gwybodaeth i gadarnhau bod ganddynt bolisïau digonol a phrosesau yn eu lle i reoli'r risg cysylltiedig o Gaethwasiaeth Fodern drwy ofyn y cwestiynau yn yr Holiadur Cyflenwyr Safonol a gwerthuso'r ymatebion.

Yn achos unrhyw gyflenwyr newydd, mae'n rhaid iddynt gwblhau gwiriadau gorfodol cyn y gellir eu cynnwys ar ein rhestr o gyflenwyr cymeradwy. Lle bo'n gymesur ac yn briodol, byddwn yn gofyn i gyflenwyr roi datganiad caethwasiaeth fodern/neu esbonio'r rhesymau pam nad oes ganddynt ddatganiad fel rhan o'r gwiriadau.

Rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i dalu'r Cyflog Byw Gwirioneddol a gwnaethom gyflwyno ein Datganiad Caethwasiaeth Fodern yn wirfoddol i gofrestrfa newydd y Llywodraeth.

Rydym yn cydnabod yr effaith gall profiadau niweidiol yn ystod plentyndod eu cael ar bobl ar hyd eu bywydau ac, yn ei dro, effaith hyn ar ein cymunedau lleol. Ar ôl cwblhau hyfforddiant Ystyriol o Drawma ar gyfer ein rolau allweddol, rydym ym mesur effaith y newidiadau rydym wedi'u cyflwyno ar y ffordd rydym yn gwneud pethau.

# Edrych i'r dyfodol

Mae cefnogi'r bobl fwyaf agored i niwed yn ein cymunedau yn ganolog i'n Cynllun Corfforaethol pum mlynedd, a bydd yn parhau yn thema allweddol yn ein Cynllun Corfforaethol nesaf sy'n cael ei ddatblygu eleni.

Byddwn yn parhau i gwblhau rhagarchwiliadau yn ystod y broses dendro ac ar ôl sefydlu cyflenwyr newydd. Bydd unrhyw gyflenwyr nad ydynt yn cydymffurfio â'r Ddeddf Caethwasiaeth Fodern yn cael eu heithrio'n awtomatig o'r broses gaffael neu rhag darparu gwasanaethau.

Ein bwriad yw cyflwyno hapwiriadau y flwyddyn nesaf fel rhan o'n proses barhaus o reoli contractau/cyflenwyr.

Rydym yn drafftio ein Polisi Cyflogaeth Foesegol i adlewyrchu gofynion y Nodiadau Polisi Caffael Cymru newydd.

## Dyma ein cynllun gweithredu ar gyfer 2024/25:

- Byddwn yn parhau i adolygu ein polisïau ac arweiniad ar Gaethwasiaeth Fodern i gyflenwyr fel rhan o'n trefniadau masnachol; byddwn yn cyflwyno hapwiriadau fel rhan o'n prosesau rheoli cyfrifon.
- Byddwn yn rhoi ein Polisi Cyflogaeth Foesegol newydd ar waith.
- Bydd yr adolygiad o'n Polisi Tâl yn cynnwys ein hymrywmiad i'r Cyflog Byw Gwirioneddol

**Clare Budden**
**Prif Weithredwr y Grŵp**

ClwydAlyn.co.uk

Cymdeithas Elusennol Gofrestredig / Charitable Registered Society (Rhif/Number 22360R)
Landlord Cymdeithasol Cofrestredig / Registered Social Landlord (Rhif/Number L051)
Wedi ei hawdurdodi a'i rheoleiddio gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol /
Authorised and regulated by the Financial Conduct Authority
Byddwn yn trin gohebiaeth a dderbynnir yn y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal /
We will treat correspondence received in English and Welsh on an equal basis